Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid Cymru

"ADDEWID RHIANTA AR Y CYD"

llyw.cymru

# Beth yw Rhianta Corfforaethol?

- Mae rhianta corfforaethol yn hyrwyddo cyfrifoldeb cyfunol awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Gall plant gael gwybod mwy am eu hawliau yma: **Comisiynydd Plant Cymru – CCUHP Hawliau Plant**.
- Dylai pob un o gyrff y sector cyhoeddus fod yn gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a hynny drwy eu plentyndod ac wrth iddynt adael gofal.
- Rydym am i'r cyrff hyn ddeall a datblygu eu cyfrifoldebau tuag at blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phob plentyn sy'n byw yng Nghymru.



# Pam Siarter? Beth yw ei phwrpas?

- Set o egwyddorion ac addewidion yw Siarter. Datblygwyd y Siarter hon mewn cydweithrediad â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Mae'r Siarter yn gyfres o addewidion y mae modd i unrhyw gorff sector cyhoeddus eu defnyddio wrth ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Mae hefyd yn nodi egwyddorion ar y cyd y dylai pob corff cyhoeddus a'u harweinwyr eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Rydym am i bob corff sector cyhoeddus a'u huwch-arweinwyr gofrestru ar gyfer y Siarter hon fel Rhiant Corfforaethol da. Nid yw'r Siarter yn gyfyngedig i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, a byddem yn croesawu unrhyw aelodau o'r trydydd sector a'r sector preifat i gofrestru a dod yn Rhiant Corfforaethol.
- Wrth ddatblygu'r Siarter hon, ystyriwyd y dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol. Yn benodol, bod rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag unigolyn, er enghraifft, plentyn sy'n derbyn gofal, roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith). **www.law.gov.wales/cy/gwasanaethau-cymdeithasol-lles-cymru-2014-ddeddfwriaeth-bellach-codau-chanllawiau-wnaed-o-ddan-y**
- Bydd Cod Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) yn cael ei ddiwygio i gynnwys canllawiau ychwanegol ar y Siarter. Bydd y Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi yn 2024 a bydd y Siarter yn cael ei hadolygu fel rhan o'r broses hon.

# Pa fath o gorff sector cyhoeddus, gwasanaeth cyhoeddus neu weithiwr proffesiynol ydyn ni'n cyfeirio ato?

Mae modd i unrhyw gorff sector cyhoeddus neu unigolyn sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, neu sy'n gyfrifol amdanynt, fabwysiadu'r siarter hon. Er enghraifft:

- Gwleidyddion – Gweinidogion Cymru, Aelodau o'r Senedd, (**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 4**).
- Cyrff Annibynnol – y Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg.
- Awdurdodau Lleol – cynghorwyr, prif weithredwyr, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, comisiynwyr a thimau caffael awdurdodau lleol, tai ac addysg, Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Byrddau Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaethau'r GIG.
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Darparwyr Gofal Cymdeithasol – Awdurdodau lleol, cartrefi preswyl i blant ac asiantaethau maeth annibynnol.
- Gweithwyr Proffesiynol ac ymarferwyr Gofal Cymdeithasol – gweithwyr cymdeithasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs), cynghorwyr personol, gweithwyr ieuenctid a chymorth, staff cartrefi preswyl i blant, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni sy'n mabwysiadu.
- Darparwyr Tai – cymdeithasau tai.
- Addysg – ysgolion, llywodraethwyr, prifysgolion, colegau a Cymwysterau Cymru.
- Trafnidiaeth Cymru.
- Sefydliadau'r Trydydd Sector ac asiantaethau neu wasanaethau mabwysiadu gwirfoddol.
- Arolygiaethau – Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn ac Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC).
- Cafcass Cymru.
- Adran Gwaith a Phensiynau.
- Heddlu – timau cyfiawnder ieuenctid a'r rhai sy'n cefnogi unigolion yn y ddalfa.
- Cyflogwyr/darparwyr Prentisiaethau/Hyfforddeiaethau.
- Cyrff cyhoeddus eraill: Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. (**Fel y'u rhestrir yn Adran 6 Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015**).

# Egwyddorion ar y cyd ar gyfer Rhieni Corfforaethol

- **Cydraddoldeb** – Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawliau, dim ots pwy ydyw (Erthygl 1. CCUHP).
- **Dileu stigma** – Byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond yn ôl eu profiad o fod mewn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i beidio â gorfod dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn (Erthygl 2)
- **Gyda'n gilydd** – Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i gael ei glywed a'i gymryd o ddifrif (Erthygl 12).
- **Cymorth** – Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn deall eu profiadau, eu hanghenion a/neu'n gallu cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant.
- **Uchelgais** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyrraedd ei botensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i fod y gorau y gall fod (Erthygl 3 a 29) a'r hawl i ymlacio a chwarae (Erthygl 31).
- **Anogaeth** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a bod eraill yn malio amdano ac yn ei garu. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i fod yn ddiogel a chael ei warchod rhag niwed (Erthygl 19) ac oherwydd y dylid sicrhau trwy wirio'n rheolaidd bod pob plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu yn iawn (Erthygl 25).
- **Iechyd da** – Byddwn yn darparu cymorth i gael mynediad at y gofal iechyd a'r cyngor cywir sydd ei angen i gefnogi'r iechyd corfforol, iechyd meddwl a'r llesiant cyffredinol gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd a'r gefnogaeth orau bosibl (Erthygl 24 a 39).
- **Cartref sefydlog** – Byddwn yn chwilio am leoedd sefydlog i fyw sy'n addas i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i amddiffyniad arbennig os nad yw'n byw gyda'i deulu (Erthygl 20). Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i unrhyw drefniant mabwysiadu gael ei oruchwylio gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn helpu'r person ifanc i dyfu a datblygu, ei fod yn gyfreithlon a'i fod yn blaenoriaethu buddiannau gorau plant (Erthygl 21).



- **Addysg dda** – Byddwn yn darparu cyfleoedd a chymorth dysgu a datblygu i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal, a byddwn yn ei helpu i fod yr hyn mae am fod. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i addysg (Erthygl 28 a 29).
- **Ffynnu** – Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael ei baratoi ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i gyrraedd ei botensial (Erthygl 3 a 29).
- **Gydol oes** – Byddwn yn gweithio i ddarparu mynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl gadael gofal, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhain.

# Ein haddewidion fel Rhieni Corfforaethol

Isod, nodir yr holl addewidion y dylai pob Rhiant Corfforaethol eu cyflawni wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal:

- Byddwn yn ymroi i wrando ar yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed a'u hystyried yn llawn wrth i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gael eu gwneud.
- Byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda pharch.
- Byddwn yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hyn sy'n digwydd a pham.
- Byddwn yn defnyddio iaith syml wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Byddwn yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Byddwn yn gweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i gyflawni ei nodau.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am y broses o gyflwyno cwyn os ydynt yn teimlo nad ydym yn cadw at y siarter hon.
- Byddwn yn rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am yr hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod eu barn, eiu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud neu pan mae'r unigolyn yn anhapus ac eisiau i rywbeth stopio, ddechrau neu newid.



# Cyfeiriadau

| Geirfa | Disgrifiad |
|---|---|
| Erthygl 2 CCUHP | Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. |
| Erthygl 4 CCUHP | Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant. |
| Erthygl 12 CCUHP | Parchu barn plant. Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. |
| Erthygl 19 CCUHP | Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl. |
| Erthygl 20 CCUHP | Rhaid i blant na all dderbyn gofal gan eu teulu eu hunain dderbyn gofal priodol, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith. |
| Erthygl 21 CCUHP | Mabwysiadu. Rhaid i'r Llywodraeth oruchwylio'r broses o fabwysiadu er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel, yn gyfreithlon a'i bod yn blaenoriaethu buddiannau gorau plant. |
| Erthygl 24 CCUHP | Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. |
| Erthygl 25 CCUHP | (Adolygu triniaeth mewn gofal) Os yw plentyn wedi'i roi oddi cartref at ddiben gofal neu amddiffyniad (er enghraifft gyda theulu maeth neu mewn ysbyty) mae ganddo hawl i adolygiad rheolaidd o'i driniaeth, ei ofal a'i amgylchiadau ehangach. |
| Erthygl 28 CCUHP | Mae gan blant hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. |
| Erthygl 29 CCUHP | Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a'r amgylchedd. |
| Erthygl 31 CCUHP | Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. |
| Erthygl 39 CCUHP | Dylai plant sydd wedi eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch. |

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant hyd at 18 oed yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol, ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt er mwyn eu gwarchod rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf bregus mewn cymdeithas. Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru wneud y Confensiwn yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru, gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r CCUHP a'i Brotocolau Dewisol wrth wneud eu penderfyniadau. Mae 54 erthygl yn rhan o'r confensiwn llawn. Mae erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylid trin plant.

Am ragor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
**Hawliau plant | Is-bwnc | LLYW. CYMRU**.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47450, ISBN digidol 978-1-80535-971-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg